Stephen Lawrence: 1975–1993

# Trywanu i farwolaeth

**Goddefgarwch / hiliaeth**

Bachgen ifanc, tywyll ei groen oedd Stephen Lawrence. Roedd o'n byw yn ne-ddwyrain Llundain. Roedd wrth ei fodd gyda chwaraeon, yn enwedig mabolgampau. Ar Ebrill 23, 1993, fe gafodd ei ladd. Dim ond deunaw oed oedd Stephen.

Tua hanner awr wedi deg yn y nos oedd hi. Roedd Stephen a'i ffrind, Duwayne, wedi cael noson dda. Roedd y ddau wedi bod yng nghartref ewythr Stephen yn gwylio'r teledu a chwarae gêmau ar y cyfrifiadur. Ar eu ffordd adref roedd y ddau yn trafod y ffilm roedden nhw wedi ei gweld.

Ar ôl cerdded am ryw ychydig, penderfynodd y ddau aros i ddal y bws. Arhosodd Duwayne wrth yr arhosfan. Aeth Stephen i lawr y ffordd i edrych oedd yna fws ar ei ffordd.

"Oes yna fws yn dod?" gwaeddodd Duwayne

Ond doedd Stephen ddim yn ateb. Gwaeddodd unwaith eto. Yr unig lais oedd yn ei glywed oedd lleisiau criw o fechgyn gwyn yn gweiddi'n groch. Aeth Duwayne i lawr y ffordd i gyfeiriad y bechgyn. Roedden nhw'n dal i weiddi pethau annymunol iawn. Roedden nhw'n gwneud sbort am ben Stephen am ei fod yn dywyll ei groen.

Gwaeddodd Duwayne ar Stephen. "Tyrd, rhed y ffordd yma. Os doi di'r ffordd yma fe wnei di eu hosgoi nhw."

Ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd criw o fechgyn gwyn wedi amgylchynu Stephen. Dyma nhw'n ymosod arno ac yna'n rhedeg i'r cyfeiriad arall. Dim ond ychydig eiliadau oedd y cyfan.

Cododd Stephen ar ei draed a dechreuodd redeg tuag at Duwayne. Ar eu ffordd adref o'r capel roedd Mr a Mrs Taaffe. Fel yr oedd Stephen yn eu cyrraedd dyma fo'n syrthio ar y pafin. Roedd o'n gafael yn ei frest. Roedd ei ddillad yn waed i gyd.

Ceisiodd Duwayne stopio'r ceir oedd yn mynd heibio, ond mynd yn eu blaenau wnaethon nhw. Rhedodd i'r bwth teliffon a ffoniodd am ambiwlans. Arhosodd Mr a Mrs Taaffe efo Stephen. Ymhen dim roedd yr ambiwlans wedi cyrraedd. Helpodd Mr Taaffe i godi Stephen i mewn i'r ambiwlans. Fe glywodd un o'r dynion yn

dweud ei fod wedi colli llawer iawn o waed. Roedd wedi ei drywanu â chyllell ddwy waith yn ei gorff a'i fraich. Roedd y gyllell wedi torri trwy'r brif wythïen oedd yn mynd i'w galon. Roedd Stephen wedi marw.

Aeth Mr a Mrs Taaffe yn ôl i'r capel i weddïo dros Stephen a'i ffrind Duwayne.

Fe ddywedodd y patholegydd, Dr Sheperd, ei fod yn rhyfeddol fod Stephen wedi gallu rhedeg ar ôl iddo gael ei drywanu.

"Mae'n rhaid ei fod yn fachgen ffit iawn," meddai.

Doedd Stephen ddim yn adnabod y bechgyn oedd wedi ei drywanu. Doedd y bechgyn hwythau ddim yn adnabod Stephen. Ar eu ffordd adref oedd ef a'i ffrind. Doedd o ddim yn gwneud drwg i neb. Yr unig reswm bod Stephen wedi ei drywanu oedd am ei fod yn fachgen tywyll ei groen. Dyna i gyd.

"Clywsoch fel y dywedwyd wrth y rhai gynt, 'Na ladd; pwy bynnag sy'n lladd, bydd yn atebol i farn.' Ond rwyf fi'n dweud wrthych y bydd pob un sy'n ddig wrth ei frawd yn atebol i farn."

Mathew 5:21-22

Helpa ni, O Dduw,
i beidio byth ag edrych i lawr
ar neb.
Mae pob unigolyn yn
arbennig i ti.
Amen.

Sut mae mynd ati i drafod problem hiliaeth yn ein gwlad?
Pa gamau fuasech chi yn eu cymryd?